




Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------


Barnwyr 16: 4-31



- 1 Syrthiodd Samson mewn cariad hefo gwraig o Ddyffryn Sorec o'r enw Delila.



- 2 Roedd Delila yn un o'r Philistiaid.



- 3 Dyma arweinwyr y Philistiaid yn mynd ati, a dweud, "Os gwnei di ei berswadio fe i ddweud wrthot ti pam mae e mor gryf, a sut y gallen ni ei ddal a'i gam-drin, cei di fil a chant o ddarnau arian gan bob un ohonon ni."



-
- 4 Felly dyma Delila yn gofyn i Samson, "Beth sy'n dy wneud di mor gryf? Sut allai rhywun dy rwymo di a dy drechu di?" A dyma Samson yn ateb, "Petawn i'n cael fy rhwymo gyda saith llinyn bwa saeth newydd, byddwn i mor wan ac unrhyw ddyd arall."



-
- 5 Felly dyma arweinwyr y Philistiaid yn rhoi saith llinyn bwa saeth newydd iddi i rwymo Samson gyda nhw. Pan oedd y dynion yn cuddio yn yr ystafell, dyma Delila yn gweiddi, "Mae'r Philistiaid yma, Samson!" Dyma fe'n torri'r llinynnau bwa fel petaen nhw'n edau oedd wedi bod yn agos i dân.



-
- 6 Dyma Delila'n dweud wrth Samson, "Ti'n chwarae triciau ac wedi dweud celwydd wrtho i! Tyrd, dywed wrtho i sut mae rhywun yn gallu dy rwymo di." A dyma fe'n dweud wrthi, "Petawn i'n cael fy rhwymo gyda rhaffau newydd sbon sydd erioed wedi cael eu defnyddio o'r blaen, byddwn i mor wan ac unrhyw ddyd arall." Felly dyma Delila yn rhwymo Samson gyda rhaffau newydd sbon.



-
- 7 Yna dyma hi'n gweiddi, "Mae'r Philistiaid yma, Samson!" (Roedd y Philistiaid yn cuddio yn yr ystafell.) Ond dyma fe'n torri'r rhaffau fel petaen nhw'n ddim ond edau!



-
- 8 Dyma Delila'n dweud wrth Samson, "Ti'n gwneud dim byd ond chwarae triciau a dweud celwydd wrtho i! Dywed wrtho i sut mae rhywun yn gallu dy rwymo di." dyma fe'n dweud wrthi, "Taset ti'n gweu fy ngwallt i — y saith plethen — i mewn i'r brethyn ar ffrâm wau, a'i gloi gyda'r pin, byddwn i mor wan ac unrhyw ddyn arall."



-
- 9 Felly tra roedd e'n cysgu, dyma hi'n cymryd ei saith plethen e, a'u gweu nhw i mewn i'r brethyn ar y ffrâm wau, a'i gloi gyda pin. Wedyn gweiddi, "Mae'r Philistiaid yma, Samson!" Dyma fe'n deffro, ac yn rhwygo'r pin allan o'r ffrâm a'i wallt o'r brethyn.



-
- 10 Dyma Delila'n dweud wrtho, "Sut wyt ti'n gallu dweud 'Dw i'n dy garu di,' os wyt ti ddim yn trystio fi? Rwy'ti wedi bod yn chwarae triciau dair gwaith ac wedi gwrthod dweud wrtho i beth sy'n dy wneud di mor gryf." Roedd hi'n dal ati i swian a swian ddydd ar ôl dydd nes roedd Samson wedi cael llond bol. A dyma fe'n dweud popeth wrthi. "Dw i erioed wedi cael torri fy ngwallt. Ces fy rhoi yn Nasaread i Dduw, cyn i mi gael fy ngeni. Petai fy ngwallt yn cael ei dorri byddwn yn colli fy nghryfder. Byddwn i mor wan ac unrhyw ddyn arall."



-
- 11 Pan sylweddolodd Delila ei fod wedi dweud ei gyfrinach wrthi, dyma hi'n anfon am arweinwyr y Philistiaid. Ac meddai wrthyn nhw, "Dewch yn ôl, mae e wedi dweud wrtho i beth ydy'r gyfrinach."
Felly dyma arweinwyr y Philistiaid yn mynd yn ôl ati, a'r arian i'w thalu hi gyda nhw. Yna pan oedd Samson yn cysgu dyma hi'n galw dyn draw i dorri ei wallt i gyd i ffwrdd. Roedd ei gryfder i gyd wedi mynd. Dyma hi'n gweiddi, "Mae'r Philistiaid yma, Samson!" A dyma fe'n deffro, gan feddwl, "Gwna i yr un peth ag o'r blaen, a chael fy hun yn rhydd." (Doedd e ddim yn sylweddoli fod yr ARGLWYDD wedi ei adael e.)



-
- 12 Roedd Samson yn wan fel pob dyn arall. Dyma'r Philistiaid yn ei ddal a thynnu ei lygaid allan. Yna dyma nhw'n mynd ag e i'r carchar yn Gasa. Yno dyma nhw'n rhoi cadwyni pres arno a gwneud iddo falu yd. Ond cyn hir roedd ei wallt yn dechrau tyfu eto.



-
- 13 Roedd arweinwyr y Philistiaid wedi dod at ei gilydd i ddatlu, a chyflwyno aberthau i'w duw, Dagon. Roedd y bobl i gyd yn edrych ar eu duw ac yn ei foli. "Mae'n duw ni wedi rhoi ein gelyn yn ein gafael."



-
- 14 Pan oedd y parti'n dechrau mynd yn wyllt dyma nhw'n gweiddi, "Dewch â Samson yma i ni gael ychydig o adloniant!" Felly dyma nhw'n galw am Samson o'r carchar, i roi sioe iddyn nhw.



-
- 15 Dyma Samson yn dweud wrth y bachgen oedd yn ei dywys, "Gad i mi deimlo pileri'r deml, i mi gael pwyso arnyn nhw." Roedd y deml yn orlawn o bobl, ac roedd arweinwyr y Philistiaid i gyd yno. Roedd tair mil o bobl ar y to yn gwyllo Samson ac yn gwneud hwyl ar ei ben. A dyma Samson yn gweddïo ar yr ARGLWYDD. "Gwna fi'n gryf dim ond un waith eto, O Dduw. Gad i mi daro'r Philistiaid un tro olaf, a dial arnyn nhw am dynnu fy llygaid i!"



-
- 16 Yna dyma Samson yn rhoi ei ddwylo ar y ddau biler oedd yn cynnal to'r deml, a gwthio, un gyda'r llaw dde a'r llall gyda'r chwith. "Gad i mi farw gyda'r Philistiaid!" gwaeddodd. Roedd yn gwthio mor galed ag y medrai, a dyma'r adeilad yn syrthio ar ben arweinwyr y Philistiaid a phawb arall oedd y tu mewn. Lladdodd Samson fwy o Philistiaid pan fuodd e farw, nag yn ystod gweddill ei fywyd i gyd! Roedd Samson wedi arwain pobl Israel am ugain mlynedd.



-
- 17 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
